OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 210

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2021

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer rheoliadau 11A, 11AA ac 11B.

(3) Yn rheoliad 12, yn lle ", 9(2), 11A(2) neu 11AA(2)" rhodder "neu 9(2)".

(4) Yn rheoliad 14(2), hepgorer is-baragraff (aa).

(5) Yn rheoliad 22(4)(a), yn lle ", 9(2), 11A(2) neu 11AA(2)" rhodder "neu 9(2)".

(6) Yn rheoliad 30, yn lle ", 9(2), 11A(2) neu 11AA(2)" rhodder "neu 9(2)".

(7) Yn rheoliad 40—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn is-baragraff (a), hepgorer ", 11A(2), 11AA(2)";

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle ", 9(3), 11A(3) neu 11AA(3)" rhodder "neu 9(3)";

(b) ym mharagraff (2)(a), yn lle ", 9(3), 11A(3) neu 11AA(3)" rhodder "neu 9(3)".

(8) Yn rheoliad 57(5)(a), yn lle "reoliad 2 o Reoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007" rhodder "reoliad 3 o Reoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020(**2**)".

(9) Ym mharagraff 3 o Atodlen 4—

(a) yn is-baragraffau (1) a (4), ym mhob lle y mae'n digwydd, yn lle "un oedolyn" rhodder "anghenion llesiant";

(b) ar ôl is-baragraff (7) mewnosoder—

"(8) Yn y paragraff hwn, ystyr "aelwyd anghenion llesiant" yw—

(a) aelwyd un oedolyn;

(b) aelwyd ag 1 neu ragor o blant a dim oedolion."

(10) Yn lle'r pennawd i Atodlen 5 rhodder "Ardaloedd ac addasiadau dros dro".

(11) Ym mharagraff 2 o Atodlen 5—

(a) ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(c) mae paragraff 3(8) o Atodlen 4 i'w ddarllen fel pe bai wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (b)—

"(c) aelwyd ag—

(i) 2 neu ragor o oedolion,

---

(**1**) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/103 (Cy. 28) ac O.S. 2021/172 (Cy. 40).

(**2**) O.S. 2020/1211 (Cy. 273).

(ii) 1 neu ragor o blant o dan 1 oed, a

(iii) unrhyw nifer o blant eraill."”

(b) ar ôl paragraff (c) (fel y'i mewnosodir uchod) mewnosoder—

“(d) mae paragraff 11 o Atodlen 4 i'w ddarllen fel pe bai—

(i) wedi ei fewnosod ar ôl is-baragraff (1)—

“(1A) A chaiff mangre a gymeradwywyd agor i'r cyhoedd i'r graddau y mae hyn yn ofynnol at ddibenion gweinyddu priodas, ffurfio partneriaeth sifil neu seremoni priodas arall yn y fangre.”

(ii) wedi ei fewnosod ar ôl is-baragraff (4)—

“(5) Yn y paragraff hwn, ystyr “mangre a gymeradwywyd” yw mangre sydd wedi ei chymeradwyo yn unol â Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Mangreoedd a Gymeradwywyd) 2005(**3**)—

(a) fel mangre y caniateir i briodasau gael eu gweinyddu ynddi yn unol ag adran 26(1)(bb) o Ddeddf Priodas 1949(**4**), neu

(b) at ddibenion adran 6(3A)(a) o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004(**5**).""

(**3**) O.S. 2005/3168, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/2661, O.S. 2013/2294 ac O.S. 2019/1458.
(**4**) 1949 p. 76; amnewidiwyd adran 26 gan adran 3 o Ddeddf Priodas (Parau o'r Un Rhyw) 2013 (p. 30).
(**5**) 2004 p. 33; amnewidiwyd adran 6(3A) gan baragraff 2(2) o Atodlen 1 i O.S. 2005/2000.